

NADOLIG 2019

Diolch i bawb ddaeth i ganol y glaw trwm i weld y goleuadau Nadolig yn cael eu troi ymlaen ar y sgwâr ar y 14eg o Ragfyr. Daeth dros 70 o bobl i ganu carolau a mwynhau gwin poeth a mins peis. Diolch i Ffion Dafis am droi'r goleuadau ymlaen ac am siarad am ei chyfnod yn Nolwyddelan.

Diolch yn arbennig i Sarah a Pete o westy'r Gwydyr wnaeth adael inni ddefnyddio eu trydan ar gyfer y digwyddiad yn ogystal â chyfrannu'r gwin poeth â'i gynhesu inni.

Cadwch eich llygaid allan ar gyfer eleni! Ar ôl llwyddiant y llynedd, er gwaethaf y glaw trwm, mae gan y pwyllgor digwyddiadau newydd syniadau uchelgeisiol ar gyfer y Nadolig eleni yn Nolwyddelan.

Yn ystod yr Ŵyl. . .

Bu i noswyl Siwmpwr Nadolig Castell Elen godi £190.20 i elusen Achub y Plant.

Bu i Seb a Jen Kent gyfrannu'n hael eu taliadau o £240.00 am wagio'r biniau baw cŵn yn y pentref i'r Cyngor Cymuned.

Bu i Ysgol Dolwyddelan godi £92.50 yn dilyn y ddau gasgliad olaf gan Seren o'r Banc Dillad y tu allan i'r ysgol. Cofiwch barhau i roi unrhyw ddillad nad ydych eu heisiau i'r banc gan helpu i godi hyd yn oed mwy o arian trwy gydol y flwyddyn.



Ein Phil Mitchell ein hunain

Da iawn Pete, perchennog Y Gwydyr, wnaeth godi £450 drwy gytuno i gwyro ei gefn yn y bar ychydig cyn y Nadolig. Aeth yna gam ymhellach, pan addawyd mwy o arian a phenderfynu eillio ei ben hefyd. Aeth yr arian tuag at Ysgol Dolwyddelan.

Mae'n ddrwg gen i os ydym wedi methu unrhyw ddigwyddiadau codi arian elusenol dros gyfnod y Nadolig. Os oeddech chi'n rhan o ddigwyddiad, da iawn chi, rydym ni wirioneddol yn bentref cymunedol yma yn Nolwyddelan.